



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Rheoli adnoddau naturiol heddiw ar gyfer cenedlaethau yfory

Ein Cynllun Busnes 2018/19

Fel Cyfoeth Naturiol Cymru, ein gweledigaeth yw arwain y ffordd i ddyfodol gwell i Gymru drwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy.

Mae ein hamcanion llesiant fel a ganlyn:

- **Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy**
- **Sicrhau bod tir a dŵr Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig**
- **Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau**
- **Lleihau'r risgiau i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd**
- **Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon**
- **Hyrwyddo busnesau llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi**
- **Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf**

Sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2013 i roi cyngor ynghylch a gofalu am yr amgylchedd naturiol yng Nghymru a'i adnoddau naturiol. Ni yw'r corff mwyaf a noddir gan Lywodraeth Cymru ac rydym yn cyflawni amrediad eang o ddyletswyddau: -

- **Cynghorydd:** i Lywodraeth Cymru a diwydiant, tîrfeddianwyr / rheolwyr tir, y cyhoedd ehangach a'r sector gwirfoddol
- **Rheoleiddiwr:** ar gyfer safleoedd diwydiannol a gwastraff, y môr a choedwigoedd, a safleoedd dynodedig, er enghraifft, gan amddiffyn pobl a'r amgylchedd naturiol
- **Dynodwr:** ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAoedd), Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNEoedd), parciau cenedlaethol a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol
- **Ymatebwr:** i tua 9,000 o ddigwyddiadau amgylcheddol yr adroddir amdanynt bob blwyddyn
- **Ymgynghorai statudol:** ar tua 9,000 o geisiadau cynllunio bob blwyddyn
- **Rheolwr:** 7% o arwynebedd tir Cymru (gan gynnwys Ystad Goetir Llywodraeth Cymru), Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, 500km o amddiffynfeydd llifogydd a 4,000 o asedau, a chyfleusterau hamdden a labordy
- **Partner, addysgwr a galluogwr:** gan gefnogi a hwyluso gwaith sefydliadau eraill a helpu pobl i ddysgu yn yr amgylchedd naturiol ac amdano
- **Casglwr tystiolaeth:** monitro'r amgylchedd, comisiynu a gwneud ymchwil, datblygu a rhannu gwybodaeth, a chynnal cofnodion cyhoeddus
- **Employer:** of about 1,750 staff as well as contractors and volunteers.

Gellir gweld ehangder ein gwaith yn y fideo canlynol [Yr hyn rydym yn ei wneud.](#)

Croeso...

...i'n Cynllun Busnes ar gyfer 2018/19. Mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd â'n [Cynllun Corfforaethol](#) ac mae'n adeiladu ar ein [Datganiad Llesiant](#) (sy'n disgrifio saith o'n Hamcanion Llesiant a'r camau sydd eu hangen arnom er mwyn eu cyflawni).

Cyflwyniad y Prif Weithredwr

Mae amgylchedd naturiol Cymru yn rhagorol ac yn ysbrydoledig. Mae'n sylfaen i'n hiechyd, ein llesiant a'n ffyniant. Mae'n darparu'r aer rydym yn ei anadlu, y dŵr rydym yn ei yfed, a'r bwyd rydym yn ei fwyta. Mae'n rhoi egni a deunyddiau craidd. Mae'n hanfodol i'n ffordd o fyw – yn cynnig swyddi, cyfleoedd hamdden ac ymlacio, a lleoliadau deniadol i fyw, gweithio a'u mwynhau. Mae'n rhan o'n diwylliant, ein hanes a'n dyfodol. Ni allwn fyw hebdo – ond, yn rhy aml o lawer, rydym yn ei gymryd yn ganiataol.

Ym mis Mawrth 2018, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol hyd at 2022, sy'n adeiladu ar ein [Hamcanion Llesiant](#) hirdymor cyntaf a'n [Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol](#) cyntaf, sy'n amlinellu gwaelodlin ein gwybodaeth bresennol ac yn cysylltu gwydnwch adnoddau naturiol Cymru â llesiant pobl Cymru. Mae'r rhain yn dangos sut mae adnoddau naturiol yn gallu parhau i fod yn fanteisiol i iechyd a lles pobl Cymru yn y dyfodol – os yw'r adnoddau hynny'n cael eu rheoli'n gynaliadwy.

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn amlinellu'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni'n annibynnol, a chyda'n partneriaid, yn ystod 2018/19 i helpu i reoli adnoddau yn gynaliadwy a chefnogi'r gwaith o gyflawni ein Hamcanion Llesiant. Mae'n bodoli o fewn ein Cynllun Corfforaethol hyd 2022. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r ddeddfwriaeth newydd sydd ar gael i ni er mwyn ystyried ffyrdd newydd ac arloesol i gyflawni mwy, a byddwn bob amser yn ymdrechu i gyflawni'r gorau o fewn ein gallu gyda'r adnoddau sydd gennym a'r cyfleoedd sydd ar gael i ni. Mae'r gweithgareddau a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn cynrychioli'r union beth hwnnw, ac maent yn dargedau heriol, ond realistig, y byddwn yn mesur ein perfformiad yn eu herbyn. Wrth fynd ar drywydd y cyfleoedd hyn, bu'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd, gan ailystyried sut yr ydym yn cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol a'n dyheadau. Mae rheoli hyn pan mae ein cyllidebau yn parhau i ostwng yn heriol, yn enwedig os ydym am osgoi effeithio ar y gwasanaethau rydym yn eu darparu'n uniongyrchol o ganlyniad i gyllid gan Lywodraeth Cymru. Yn aml, mae meysydd gwaith lle yr hoffem ymrwymo i gyflawni mwy, a bydd gweithredu ysbryd a gweithredoedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, ynghyd â'n gallu i gefnogi'r Polisi Adnoddau Naturiol, yn mynnu ein holl ddyfeisgarwch a gweithio ar y cyd gyda'n partneriaid.

Mae adroddiadau diweddar, yn cynnwys gan Swyddfa Archwilio Cymru, wedi dangos ein bod ni wedi ymdopi'n dda yn ystod ein pum mlynedd gyntaf, ond bydd cynnal hyn gyda gostyngiadau parhaus i'r gyllideb yn heriol. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid a Llywodraeth Cymru ar ffyrdd newydd ac arloesol o weithio a chynyddu ein hincwm er mwyn caniatáu i ni uchafu'r hyn y gallwn ei wneud. Hefyd, mae gwaith i ailgynllunio ein sefydliad yn cefnogi ein huchelgais a'n blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Busnes hwn. Drwy wneud hyn, mae'n helpu i ni nodi lle y dylid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch darparu adnoddau ar draws ehangder ein cylch gwaith.

Fel y Prif Weithredwr newydd, ystyriaaf fod y Cynllun Busnes hwn yn gam hanfodol bwysig o ran dull newydd i amgylchedd Cymru. Mae'n amlinellu'r berthynas sydd gennym ni, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid, ynghyd â'r cyhoedd, o ran sicrhau bod pobl yn mwynhau ein hadnoddau naturiol wirioneddol ragorol ar hyn o bryd, ac am flynyddoedd lawer i ddod. Byddaf yn canolbwyntio ar sicrhau bod y cyfathrebu sydd ei angen i wneud y gwaith rhyngberthynas hwn ar waith, yn allanol â phartneriaid a phobl eraill, ond hefyd yn fewnol, gan greu sefydliad sydd â diwylliant sy'n cefnogi darparu o safon uchel, a bod yn lle delfrydol i weithio. Bydd yn rhaid rheoli adnoddau yn ofalus, wrth gwrs, a disgwyliaf i weld ni'n datblygu dulliau masnachol cryf i gefnogi'r hyn rydym yn dymuno ei gyflawni.

Bydd diwallu ein Hamcanion Llesiant yn her hirdymor ac mae'r Cynllun Busnes hwn yn gam ar hyd y daith hon. Mae'n ein symud at bennod newydd, gyda fi fel ein Prif Weithredwr, ac mae'n adeiladu ar waith ein pum mlynedd gyntaf.

Clare Pillman
Prif Weithredwr

Cyd-destun

Mae ein Hamcanion Llesiant yn dangos sut rydym am gyfrannu at y nodau a amlinellir yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). Byddwn yn gwneud hyn drwy anelu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a defnyddio'i egwyddorion i sicrhau y bydd adnoddau naturiol ar gael yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol – sef ein prif ddiben fel y nodir yn [Neddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#).

Mae ein Hamcanion Llesiant, ynghyd â'u camau gwaelodol, yn adlewyrchu [Ffyniant i Bawb: Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru](#), sy'n seiliedig ar [Symud Cymru Ymlaen – y Rhaglen Lywodraethu](#). Datblygwyd y rhain ar y cyd gyda'n staff a'n rhanddeiliaid, gan fabwysiadu'r pum dull o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd cyflawni saith Nod Llesiant Cymru – Cymru ffyniannus, sydd ag ecosystemau gwydn, sy'n iach, sy'n fwy cyfartal, sydd â chymunedau cydlynol, sydd â diwylliant egniol a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, ac sy'n gyfrifol yn fyd-eang – yn helpu i greu'r Cymru y byddwn yn ei hoffi yn y dyfodol, ac yn cyfrannu at 17 [Nod Byd-eang 2030 y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Datblygu Cynaliadwy](#), sy'n helpu i fynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf y gymdeithas ledled y byd.

Mae [Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru](#) yn amlinellu tair her allweddol o ran rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru:

- Gwella gwydnwch ecosystemau
- Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth
- Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd

Mae hefyd wedi tynnu sylw at dair blaenoriaeth genedlaethol lle y gallai rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy helpu i ennill budd sylweddol:

- Cyflawni datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, megis y rhai a awgrymir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

- Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon
- Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le – gweithio'n lleol mewn ffordd gydgysylltiedig

Mae ymateb i'r heriau hyn a gweithio gyda'r blaenoriaethau hyn yn weladwy drwy gydol ein Cynllun Corfforaethol hyd at 2022 ac yn y Cynllun Busnes hwn, a fydd yn helpu i wireddu'r prif gyfleoedd sy'n gysylltiedig ag adnoddau naturiol fel yr amlinellir yn y Polisi Adnoddau Naturiol:

- Cefnogi cymunedau mwy llwyddiannus a chynaliadwy
- Hyrwyddo twf ac arloesedd gwyrdd i greu swyddi cynaliadwy
- Cefnogi economi fwy effeithlon o ran adnoddau
- Cynnal lles pobl Cymru

Ein [Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol](#) 2016 oedd y cyntaf o'i fath. Roedd yn amlinellu cyflwr adnoddau naturiol y wlad ac yn asesu i ba raddau yr oeddent yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Ac – yn unigryw – roedd yn cysylltu gwydnwch adnoddau naturiol Cymru â llesiant pobl Cymru, gan awgrymu atebion sy'n seiliedig ar natur er mwyn cyflawni buddion lluosog i bobl:

- Mwy o seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac o'u hamgylch
- Mwy o orchudd coetir a mwy o goetiroedd o dan reolaeth
- Rheoli'r parth arfordirol
- Gweithio o fewn dalgylchoedd dŵr cyfan
- Rheoli pridd yn well
- Defnydd gwell o'r ucheldiroedd
- Rheolaeth integredig o ecosystemau morol

Bydd ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn effeithio ar lawer o'r polisiau, y deddfwriaethau a'r arian sy'n cefnogi adnoddau naturiol, gan gynnwys cyllid ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylchedd a chyllid LIFE i gefnogi prosiectau amgylcheddol, cadwraeth natur a newid yn yr hinsawdd. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd, gan ddylanwadu ar yr opsiynau gorau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy a helpu i'w datblygu. Mae hyn yn thema drwyddi draw'r Cynllun Busnes hwn, ac mae'n hanfodol er mwyn cyflawni pob un o'n Hamcanion Llesiant.

Mae Gweinidog yr Amgylchedd Cynulliad Cymru wedi amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer amgylchedd Cymru yn ystod tymor hwn y Cynulliad:

- Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth
- Gwella dealltwriaeth o werth natur, gan gynnwys drwy barciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol
- Gwella ac ehangu coetiroedd yng Nghymru
- Mynd i'r afael ag ansawdd aer gwael
- Dod y gorau yn y byd am ailgylchu

Mae ein cyfraniad at y targedau hyn wedi'i ledaenu ar draws y Cynllun Busnes hwn, ond mae rhai o'n cyfraniadau mwyaf sylweddol yn cynnwys:

- Gwaith carbon bositif
- Hyrwyddo coetiroedd cynaliadwy ac amrywiol

- Trwyddedau sy'n ystyried ac yn rheoli allyriadau sy'n effeithio ar ansawdd yr aer, ynghyd â darparu cyngor cynllunio a chyngor arall i bartneriaid, gan gynnwys effaith ansawdd yr aer ar ecosystemau
- Hyrwyddo dealltwriaeth drwy greu gweledigaeth a rennir, cydweithio gyda phartneriaid, a chyfrannu at Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Adeiladu gwydnwch ecosystemau drwy adfer, creu a gwella cyflwr cynefinoedd

Ein Cynllun Busnes

Mae nifer o flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yn y Cynllun Busnes hwn. Bydd y rhain yn ein helpu i gyflawni ymrwymadau ein Cynllun Corfforaethol hyd at 2022 ac yn ein rhoi ar y trywydd iawn tuag at gyflawni ein Hamcanion Llesiant. Bydd cwblhau'r gwaith o ailgynllunio ein sefydliad yn ystod 2018/19 yn ein helpu i nodi lle y mae angen gwneud penderfyniadau anodd o ran adnoddau ar draws ein cylch gwaith er mwyn caniatáu i ni symud ymlaen â'r darnau allweddol hyn o waith. Mae rhagor o fanylion ynghylch yr holl dargedau y byddwn yn mesur ein hun yn eu herbyn wedi'u hamlinellu yn adran "Yr hyn y byddwn yn ei wneud" o'r Cynllun Busnes hwn.

Blaenoriaethau

- Gweithio gyda phobl eraill i ddatblygu gweledigaeth hirdymor a rennir ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru hyd at 2050, a sut rydym yn mesur cynnydd tuag ati. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn annog dull hirdymor o'r fath ac mae ein Hamcanion Llesiant yn hirdymor fel mater o reidrydd, sy'n golygu nad oes modd eu cyflawni yn ystod oes y Cynllun Corfforaethol hwn.
- Datblygu datganiadau ardal ar y cyd gyda'n staff a'n rhanddeiliaid cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Byddant yn sail i'n holl waith ym mhob ardal, maent yn hanfodol o ran llywio'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus, a byddant yn cynnig cyfleoedd i bawb weithredu. Bydd saith datganiad ardal yn cwmpasu chwech o ardaloedd rhanbarthol Cymru ac un ar gyfer yr amgylchedd morol.
- Parhau i ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'n diben – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy – ar draws ein holl waith. Yn arbennig, ymgorffori Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – a chefnogi awdurdodau cyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un peth.
- Cefnogi'r gwaith o weithredu Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru drwy ddatganiadau ardal i helpu i droi'r blaenoriaethau cenedlaethol yn weithredoedd lleol.
- Yn fwyfwy, sicrhau a hyrwyddo pwysigrwydd tystiolaeth gadarn ac amddiffynadwy, a chymhwyso arloesedd at bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Parhau i weithio gyda'r llywodraeth a phobl eraill ar y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn arbennig ar brosiectau seilwaith o bwys, ac ar faterion sy'n ymwneud â Chymru mewn perthynas ag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

- Cydweithio, fel yr unig aelod statudol, ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan weithio i sicrhau bod y buddion cymdeithasol ac economaidd o ran adnoddau naturiol a reolir yn gynaliadwy yn cael eu cydnabod a'u hoptimeiddio yn y blaenoriaethau a ddilynir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gyfuno ac integreiddio gwaith yr holl aelodau.
- Gosod profiad cwsmeriaid sy'n gwella, ynghyd â gwell profiadau cydweithredol, wrth wraidd ein gweithgarwch er mwyn i ni wella gwasanaethau, ennill ffydd a chreu eiriolaeth.
- Ailgynllunio ein strwythur a datblygu ffyrdd cefnogol newydd o weithio, er mwyn sicrhau ein bod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn gallu gweithredu i ddarparu dyletswyddau yn effeithiol yn y dyfodol.

Risgiau

Ar ôl cytuno ar ein Hamcanion Llesiant, mae sawl maes allweddol yr ydym yn cydnabod eu bod yn risgiau a phroblemau i'w rheoli i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni.

- O ystyried yr adnoddau sy'n lleihau, a phenderfyniadau anodd o ran blaenoriaethu, mae **ymgysylltu â rhanddeiliaid** yn hanfodol er mwyn cynnal cydberthnasau gweithio ac ennill y gwerth gorau am arian ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru.
- Mae cynnal uniondeb a **chywirdeb ein tystiolaeth** yn hanfodol er mwyn danategu ein penderfyniadau a rhoi hyder i'r rhai sy'n defnyddio ein tystiolaeth.
- Nid ydym yn glir ar hyn o bryd o ran yr effeithiau penodol y bydd **trafodaethau Brexit** yn eu cael ar ein gweithgareddau craidd a ffynonellau posibl o ariannu allanol. Rydym yn bwydo i grwpiau cynghori Llywodraeth Cymru a byddwn yn chwarae rhan lawn pan fydd angen cymryd camau wrth ymateb i benderfyniadau yn San Steffan.
- Mae newid parhaus a symud at **ffyrdd newydd o weithio** wedi bod yn gythryblus i'n staff a byddwn yn parhau i weithio ar y cyd wrth i bob un ohonom ymaddasu.
- Er mwyn cynnal parhad busnes, rydym yn asesu ein hamddiffyniad rhag **ymosodiad seiber** yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn cyfateb i debygolrwydd a graddfa'r bygythiad rydym yn ei wynebu.

Sut mae ein Cynllun Busnes yn cyd-fynd â'n cynlluniau hirdymor a byr

Unwaith y caiff ei datblygu, ein gweledigaeth a rennir ar gyfer yr amgylchedd naturiol hyd at 2050 fydd ein nod hirdymor, gyda'r Cynllun Corfforaethol yn gweithredu fel ein cynllun tymor canolig ein hun ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ei dro, bydd y Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflwyno drwy gynlluniau busnes blynyddol olynol. Dangosir hyn isod: -

	Hirdymor	Tymor canolig	Tymor byr
Cynllun	Gweledigaeth a Rennir hyd at 2050	Cynllun Corfforaethol	Cynllun Busnes
Hyd	20–25 mlynedd	3–5 mlynedd	1 flwyddyn
Monitro	Dangosyddion sy'n dangos newidiadau yng Nghymru o ganlyniad i weithgaredd gan yr holl sefydliadau ac unigolion yng Nghymru wrth weithio ar y cyd yn eu cyfanrwydd	Mesurau perfformiad tymor canolig 3–5 mlynedd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru – dangosfwrdd ein Cynllun Corfforaethol	Targedau blynyddol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru – dangosfwrdd ein Cynllun Busnes

Dyma ein cynlluniau lefel uchaf – bydd ein cynlluniau gweithredol yn eistedd o dan y rhain – er enghraifft, ein cynlluniau adnoddau naturiol hirdymor, ein cynlluniau gwasanaeth tymor canolig, a'n cynlluniau gwaith a phrosiect tymor byrrach.

Beth byddwn ni'n ei wneud?

Mae adran nesaf y Cynllun Busnes yn edrych ar bob Amcan Llesiant yn ei dro, gan esbonio lle yr ydym ar hyn o bryd, defnyddio gwybodaeth o'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a ffynonellau eraill, ac amlinellu beth yw ein blaenoriaethau yn ystod 2018/19. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys ein targedau blynyddol ac yn ffurfio ein Dangosfwrdd Cynllun Busnes ar gyfer 2018/19.

Amcan Llesiant 1: Hyrwyddo amgylchedd Cymru a'r gwaith o reoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy

Ble'r ydym yn awr?

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn dweud wrthym nad yw'r dull presennol o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru yn gynaliadwy yn y tymor hir ac, er bod mwy o bobl yn pryderu am yr amgylchedd naturiol, bod rhagor o waith i'w wneud i helpu pobl i fyw yn gynaliadwy. Er enghraifft: -

- Cyfrifwyd bod ôl troed ecolegol Cymru bum gwaith yn fwy na maint gwirioneddol y wlad¹
- Mae 67% o bobl yng Nghymru yn poeni am newid yn yr hinsawdd, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn ei briodoli i weithgaredd dynol¹
- Mae 43% o bobl yn poeni am newidiadau i fioamrywiaeth yn y dyfodol²
- Mae 3% o bobl wedi gwirfoddoli i helpu i amddiffyn yr amgylchedd¹

Ein blaenoriaethau yn ystod 2018/19 a'n gwaith gyda phartneriaid

Datblygu **gweledigaeth a rennir ar gyfer yr amgylchedd naturiol:**

- Cydlynu a hwyluso sesiynau ymgysylltu i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer adnoddau naturiol yng Nghymru
- Cynnwys staff er mwyn cefnogi gyda thystiolaeth a mewnweddiad
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid a pharatoi a chyflwyno dogfen i'w chraffu

Cefnogi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy ddatblygu a darparu **datganiadau ardal** gyda phartneriaid sy'n cwmpasu Cymru gyfan erbyn gwanwyn 2020:

- Casglu'r holl ddata perthnasol a gwybodaeth gan arbenigwyr a rhanddeiliaid
- Darparu cynnyrch ar y cyd i ffurfio a llywio datganiadau ardal erbyn diwedd 2018/19
- Adeiladu ar waith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn genedlaethol a dechrau culhau ein ffocws ar feysydd blaenoriaeth
- Sicrhau ein bod yn glir o ran yr hyn yr ydym yn ei gyflawni a'r hyn sydd i'w gyflawni gan bobl eraill

Hyrwyddo Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u defnyddio i gyflawni ein hamcanion. Bod yn bartner gweithredol y mae eraill yn ymddiried ynddo ar yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ddatblygu a chyflawni cynlluniau llesiant ar y cyd:

- Cyd-gynhyrchu 19 o gynlluniau llesiant a chyfrannu at y gwaith o gyflawni'r rhaglenni gwaith ar y cyd sy'n codi yn ystod 2018/19
- Sicrhau cynlluniau llesiant sy'n uwchraddio eu cyfraniad i sicrhau bod gan Gymru adnoddau naturiol gwydn yn ogystal â'r nodau llesiant ehangach
- Trwy ddatblygu datganiadau ardal, cefnogi asesiadau o lesiant lleol a darparu tystiolaeth a gwybodaeth ar sefyllfa adnoddau naturiol a sut mae hyn yn helpu neu'n effeithio ar lesiant ac yn cyfrannu at ddealltwriaeth
- Integreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llawn ar draws pob rhan o'n sefydliad
- Cyflawni newid hirdymor drwy sicrhau bod gan ein staff y sgiliau i ysgogi newid a hyrwyddo gwaith cydgynhyrchiol a gweithio ar y cyd gwell gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Trwy sicrhau'r ddarpariaeth orau posibl ledled Cymru, byddwn yn gwella'r ffordd **rydym yn gweithio ar y cyd ac yn cefnogi partneriaid**:

- Gweithredu ein dull comisiynu newydd er mwyn cynnig cymorth grant i gefnogi cydweithio gyda sefydliadau eraill ar lefel leol ac ar lefel Cymru gyfan
- Darparu fframwaith ansoddol a meintiol i gasglu canlyniadau'r gwaith ar y cyd a gyflawnwyd
- Cyflawni dulliau prosiect ar y cyd drwy'r ffordd maent yn cael eu cynllunio, eu hadeiladu ac wedyn eu gwerthuso
- Defnyddio gweithio ar y cyd er mwyn adeiladu sgiliau staff trwy rannu eu storïau
- Datblygu trefniadau ariannu newydd ar gyfer cynlluniau, gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol Cymru
- Creu meincnod ar gyfer gwerthuso cynnydd o ran gweithio ar y cyd

Gweithredu fel enghraifft batrymol wrth **reoli ein hôl troed carbon ein hun**:

- Cyflawni camau gweithredu ein Cynllun Galluogi Carbon Bositif
- Rhoi cyngor sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi fframwaith strategol Llywodraeth Cymru er mwyn galluogi'r broses o drosglwyddo i economi carbon isel a lleihau allyriadau carbon 80% erbyn 2050

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i drosglwyddo gwybodaeth a rhannu'r hyn a ddysgwyd ar draws sector cyhoeddus ehangach Cymru

Cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau effeithiol gyda'r dystiolaeth gywir, gan ddatblygu ein sail dystiolaeth drwy'r gwaith i gyflawni Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2:

- Datblygu'r fethodoleg ar gyfer modelu a dadansoddi, ac adrodd ar y gwaith o asesu'r rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol
- Nodi a rheoli bylchau mewn tystiolaeth
- Gweithredu cynllun ymgysylltu ar gyfer Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2 er mwyn sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei datblygu a'i rhannu yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol

Cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau effeithiol gyda'r dystiolaeth gywir, gan ddatblygu ein cyfraniad at Arolwg Cenedlaethol Cymru i sicrhau:

- Bod cerrig milltir 2017/18 yn parhau gyda chwestiynau ychwanegol yn Arolwg 2018/19
- Bod allbynnau yn parhau i gael eu cyhoeddi
- Bod dadansoddiad manwl yn cael ei gomisiynu

Cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau effeithiol gyda'r dystiolaeth gywir, gan ddarparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy:

- Gwneud y gwaith sy'n ofynnol er mwyn dwyn data ar amrywiaeth o newidynnau amgylcheddol ynghyd mewn modd sy'n caniatáu safbwynt mwy cyfannol ac felly'n cefnogi'r gwaith o gyflawni rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Darparu porth gwybodaeth mewnol er mwyn caniatáu i'r staff gael mynediad at y data a'r wybodaeth sydd eu hangen er mwyn cefnogi eu gwaith

Adrodd ar gynnydd tuag at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy ddatblygu **dangosyddion** sy'n ystyrlon ac sy'n cael eu cydnabod ledled cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Sicrhau bod yr holl **weithgareddau tystiolaeth yn cyflawni safonau ansawdd**:

- Datblygu a chydlynu'r ein dull o ran integreiddio ein gwaith dadansoddi data amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd
- Sicrhau bod yr holl arolygon yn cael eu datblygu a'u dadansoddi i safon gyson
- Ehangu ein Grŵp Arloesedd i gefnogi'r gwaith o nodi a chyflwyno arloesedd a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg

Darparu **rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy** drwy sicrhau bod hyn, fel ein diben, yn cael ei **ymgorffori** ledled y sefydliad. Darparu hyfforddiant ymgysylltu â staff, dulliau penderfynu mewn perthynas â chynllunio corfforaethol a busnes, a phrosesau llywodraethu:

- Darparu hyfforddiant Lefel 2 i'r holl staff erbyn mis Medi 2018
- Darparu a phrofi hyfforddiant Lefel 3 a 4 erbyn hydref 2018, a chyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn
- Mae'r holl bolisiâu a chanllawiau sy'n cael eu paratoi yn unol â'n diben
- Parhau i symleiddio prosesau cynllunio amgylcheddol, gweithredu newidiadau yn y sector dŵr, a chwblhau adolygiad o ran cynllunio ar gyfer y tir a pherygl llifogydd

AMCAN LLESIANT 2: Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru'n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig

Ble'r ydym yn awr?

Mae tua 90% o dir Cymru yn cael ei ddefnyddio naill ai ar gyfer amaethyddiaeth neu goedwigaeth,⁵ tra bo'r amgylchedd morol yn cynrychioli 41% o dir Cymru.⁶ Nid yw'r tir a'r dŵr (gan gynnwys y rhan forol) bob amser yn cael eu rheoli mewn modd integredig ar hyn o bryd, ac er bod ansawdd y dŵr a'r aer wedi gwella mewn ambell achos dros y blynyddoedd diweddar, mae llawer o waith i'w wneud o hyd nes y byddwn i gyd yn rheoli tir, aer a dŵr Cymru'n gynaliadwy. Er enghraifft:

- Dim ond un o ddyfroedd ymdrochi dynodedig Cymru na lwyddodd i fodloni'r safonau llymach a bennir gan y Gyfarwydddeb Dyfroedd Ymdrochi yn 2016.¹ Fodd bynnag, methodd 63% o gyrff dŵr croyw i gyflawni statws cyffredinol da neu well yn 2015 fel y diffinnir gan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.¹ Mae llygryddion o fwyngloddiau metel segur yn effeithio ar 700 cilomedr o afonydd Cymru: mae naw o'r deg dalgylch sydd wedi'u llygru fwyaf gan fetel mwynau yn y DU yng Nghymru.⁷
- Mae ansawdd aer wedi gwella'n gyffredinol ers yr 1970au. Fodd bynnag, mae lefelau targed ar gyfer nitrogen deuocsid a deunydd gronynnol yn peri problem iechyd cyhoeddus sylweddol, yn enwedig mewn ardaloedd trefol ac wrth ymyl ffyrdd mawr.¹ Nid yw llygredd aer ond yn broblem drefol, ac mae llygredd aer yn effeithio'n negyddol ar dros 74% o gynefinoedd Cymru.⁸
- Mae ansawdd pridd wedi gwella ychydig mewn coetiroedd ac wedi adfer ychydig mewn mawndiroedd; mae'n parhau i fod yn gymharol sefydlog o ran defnyddiau tir eraill. Mae priddoedd Cymru'n storio oddeutu 410 miliwn tonnell o garbon.¹

Ein blaenoriaethau yn ystod 2018/19 a'n gwaith gyda phartneriaid

Cefnogi **rheolaeth gynaliadwy o'r amgylchedd morol** drwy ddarparu ein Rhaglen Forol:

- Paratoi i weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, y cyntaf yn y wlad, gan ddatblygu canllawiau i gefnogi ein swyddogaethau rheoleiddiol a chynghorol, a darparu hyfforddiant ar gyfer staff
- Integreiddio gwaith i ddatblygu a chyflawni'r Datganiad Ardal Morol, Cynllun Comisiynu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol sy'n ymwneud â'r môr, ac ymgorffori dull cyson o ran addasiad arfordirol ym mhob ardal
- Cynghori'r llywodraeth ynghylch cwblhau'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a darparu prosiectau ar y cyd i wella rheolaeth a chyflwr y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gan gynnwys asesiadau o brosiectau gweithgarwch pysgota yng Nghymru

Hyrwyddo a chefnogi **busnes cynaliadwy drwy reoli cynhyrchiant pren:**

Gweithredu'r ail flwyddyn o'n cynllun marchnata pren pum mlynedd drwy gyflawni cynaeafu pren Cymru gyfan a'r rhaglen ailblannu ddilynol

- Teneuo oddeutu 2,700 hectar a llwyrwympo oddeutu 2,000 hectar o goetir

- Cynnig 850,000 m³ o bren ar y farchnad yn 2018/19 – oddeutu 150,000 m³ o bren o ganlyniad i deneuo a 700,000 m³ o lwyrgwmpo. O gyfanswm y rhaglen 850,000 m³, bydd oddeutu 700,000 m³ yn cael eu cynnig o'n rhaglen graidd a 150,000 m³ o werthiannau coed sy'n sefyll a mwy
- Cyflawni rhaglen ailstocio graidd flynyddol o 1,000 hectar a monitro yn erbyn y tir sy'n aros i gael ei ailstocio
- Darparu rhaglen ailstocio *P. ramorum* o hyd at 800 hectar
- Darparu'r seilwaith angenrheidiol i gyflawni'r rhaglen gynaeafu a bodloni'r safonau amgylcheddol

Diogelu'r amgylchedd **drwy drwyddedu gweithgaredd rheoledig** yn effeithiol, gan gynnwys aer, tir, dyfroedd croyw a morol, pobl, rhywogaethau a chynefinoedd:

- Penderfynu ynglŷn â 95% o geisiadau am drwydded yn unol ag amserlenni statudol a lefel gwasanaeth
- Cynnal adolygiad blynyddol o gynlluniau codi tâl a datblygu dull er mwyn symud ymlaen â chynllun codi tâl yn y dyfodol
- Archwilio'r gwaith o gymhwyso ein hegwyddorion rheoleiddiol, a datblygu a darparu hyfforddiant ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â rheoleiddio
- Parhau i ddatblygu Marchnad Werdd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Talu am Wasanaethau Ecosystemau
- Adolygu a gwella'n barhaus yn unol ag adborth a chwynion gan gwsmeriaid

Sicrhau bod ein cronfeydd dŵr yn cydymffurfio â **Deddf Cronfeydd Dŵr 1975** yn dilyn y cynnydd yn nifer ein cronfeydd dŵr a reoleiddir o 12 i 48 drwy gyflawni'r canlynol:

- Ein rhaglen gyfalaf flynyddol o "fesurau er mwyn diogelwch" (50 mesur ar gyfer 2018/19)
- Ein rhaglen flynyddol o "fesurau at ddibenion cynnal a chadw" ar gyfer 2018/19
- Ein rhaglen flynyddol o ymweliadau statudol o dan Adran 11 Deddf Cronfeydd Dŵr 1975
- Ein rhaglen cynnal a chadw flynyddol reolaidd

Gwella ansawdd dŵr drwy ddarparu ymyriadau a arweinir gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr:

- Gweithredu cynlluniau rheoli basn afon
- Dechrau cynllunio ar gyfer trydydd cylch y cynlluniau rheoli basn afon, gan sicrhau ein bod yn ystyried cyfleoedd ar gyfer symleiddio ac integreiddio gyda chynlluniau eraill
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei adlewyrchu fel ysgogiad allweddol ar gyfer unrhyw gynllun rheoli tir yn y dyfodol
- Darparu gofynion adrodd allweddol mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac Erthygl 17 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau

Amcan Llesiant 3:Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau

Ble'r ydym yn awr?

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol wedi nodi nad oes yr un ecosystem yng Nghymru wedi cael ei hasesu â gwydnwch da ar hyn o bryd ac efallai na fydd llawer ohonynt yn ddigon hyblyg i ymdopi â newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill: -

- Ar y cyfan, mae bioamrywiaeth yn dirywio, mae ehangder rhai cynefinoedd wedi dirywio'n sylweddol, ac mae'r cysylltedd rhwng cynefinoedd wedi gostwng.¹⁰
- Mae cyflwr ecosystemau – yn seiliedig ar nodweddion – yn gymysg yn dibynnu ar y cynefin. Canfuwyd bod 55% o rywogaethau a 75% o nodweddion cynefinoedd ar safleoedd Natura 2000 mewn cyflwr anffafriol.¹⁰
- Mae enghreifftiau o faterion sydd wedi effeithio'n negyddol ar safleoedd bywyd gwylt gwarchoddedig yn cynnwys: pori a rheoli da byw amhriodol, rheoli coetiroedd mewn modd amhriodol, newidiadau o ran cyflwr hydrologig, darnio cynefinoedd, a datblygiadau diwydiannol neu ddatblygiadau eraill. Mae ansawdd aer gwael yn ffactor hefyd: mae dros 74% o gynefinoedd Cymru yn cael eu niweidio o ganlyniad i lygredd aer.⁸
- Mae 43% o bobl yn poeni am newidiadau i fioamrywiaeth yn y dyfodol.²

Mae angen i ni wneud ecosystemau'n wydnach, a sicrhau bod safleoedd dynodedig yn rhan o rwydwaith llawer ehangach sy'n cysylltu ecosystemau ar lefel swyddogaeth ledled Cymru ac yn gwella'r buddion y mae pobl yn eu derbyn oddi wrthynt.

Ein blaenoriaethau yn ystod 2018/19 a'n gwaith gyda phartneriaid

Er mwyn cynyddu stociau eogiaid, brithyllod y môr a brithyllod yng Nghymru, a'u cynefinoedd pysgodfeydd dŵr croyw, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddyfeisio a gweithredu gwelliant i gynefinoedd afonydd ledled Cymru drwy:

- Comisiynu gwaith er mwyn llunio cynlluniau adfer afonydd, gan ddwyn tystiolaeth o ffynonellau niferus ynghyd er mwyn diffinio cyfyngiadau ar boblogaethau pysgod a galluogi blaenoriaethu adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol
- Chwilio am gyfleoedd ariannu er mwyn gweithredu gwaith a nodir mewn cynlluniau adfer afonydd a chefnogi cynigion ar gyfer cynlluniau comisiynu yn y dyfodol
- Targedu'r defnydd o arian prosiect pysgodfeydd presennol er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau i gysylltedd mewn perthynas â physgod sy'n mudo ac adfer cynefinoedd gwan
- Sefydlu eogiaid fel rhywogaeth eiconig sy'n arwydd o ansawdd cynefin ledled Cymru

Byddwn yn gweithio i wella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau **drwy adfer, creu a gwella cyflwr cynefinoedd**, drwy ymyriadau uniongyrchol ar y tir a'r dŵr a reolir gennym, ac mewn cydweithrediad â phartneriaid. Byddwn yn:

- Adolygu ehangder a'r cyfleoedd ar gyfer adfer, creu a gwella cynefinoedd ledled gweithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru
- Sefydlu methodoleg ar gyfer adrodd ynghylch y gweithgareddau hyn, gan ystyried y gofynion a'r cysylltiad â systemau adrodd cenedlaethol eraill
- Trwy ddatblygu datganiadau ardal, byddwn yn nodi ac yn blaenoriaethu cyfleoedd ar gyfer adfer, creu a gwella cynefinoedd, gyda chefnogaeth gan ganllawiau mewnol ac ar gyfer partneriaid
- Noddi cynhadledd allweddol ar y cyd mewn perthynas â dyfodol cadwraeth natur yn y DU ym mis Mai 2018

- Parhau i ddatblygu cydberthnasau gwaith cryf gyda'n sefydliadau partner yn y DU drwy asiantaethau cadwraeth y Grŵp Prif Wyddonwyr a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gychwyn ar y gwaith o gyflwyno Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig

Amddiffyn yr amgylchedd rhag **rhywogaethau goresgynnol ac estron** drwy weithio gyda phartneriaid i gyflawni ein dyletswydd i atal, nodi a rheoli rhywogaethau goresgynnol ac estron:

- Gweithredu deddfwriaeth newydd sy'n rhoi pwerau a dyletswyddau newydd i ni fel rheoleiddiwr i fynd i'r afael â materion (Deddf Rhywogaethau Oresgynnol Estron 2014, Rheoliadau Rhywogaethau Oresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2018 a Deddf Seilwaith 2015)
- Cyflawni'r camau gweithredu a nodir o fewn [Strategaeth Rhywogaethau Anfroddol Goresgynnol Prydain Fawr 2015](#)
- Gweithio tuag at sicrhau ein bod yn enghreifftiol o ran bioddiogelwch drwy weithredu'r argymhellion a nodwyd yn yr archwiliad bioddiogelwch

Gwella gwydnwch ein hecosystemau a hyrwyddo **coetiroedd cynaliadwy ac amrywiol** drwy eu rheoli'n gynaliadwy yn y ffyrdd canlynol:

- Gweithredu a monitro ein cynllun gweithredu ar gyfer ein coetir brodorol a Phlanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol
- Gwaredu ar fygythiadau mewn 580 hectar o safleoedd coetir hynafol
- Cyflawni teneuo coedamaeth er mwyn dychwelyd 275 hectar o blanhigfeydd i goetir brodorol fesul cam
- Cadw ardystiad coedwigaeth annibynnol Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig i ddangos bod ein pren yn cael ei reoli'n gynaliadwy ar gyfer cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill

Amddiffyn ecosystemau drwy fonitro a rhoi sylw i faterion iechyd coed a phlanhigion ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, gan gynnwys *P. ramorum*, drwy:

- Cynnal a chadw cydymffurfiaeth â'r rhaglen iechyd planhigion
- Parhau â'r gwaith o glirio 800 hectar o goed larwydd a'r rhaglen ailblannu ddilynol
- Cynnal asesiadau o iechyd planhigion a chyflwyno hysbysiadau iechyd planhigion mewn da bryd

Adeiladu gwydnwch ecosystemau drwy gydymffurfio ag Adran 6 Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:

- Gweithredu ein harweiniad strategol ar fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau
- Sicrhau bod bioamrywiaeth wedi'i hymgorffori ym mhob un o'n swyddogaethau
- Datblygu ymhellach ein dull o ran gwydnwch ecosystemau a'r gwaith o'i gymhwyso
- Helpu i gyflawni Cynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru gyda phartneriaid

Adeiladu gwydnwch ecosystemau drwy wella statws cadwraeth nodweddion ar safleoedd gwarchoddedig gyda'n partneriaid:

- Gweithredu argymhellion adolygiadau o brosesau cydsynio ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Cynnydd yn erbyn rhaglen 2018/19 o ymyriadau rheoli ffafriol ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Safleoedd Ramsar a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

Amcan Llesiant 4:Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd

Ble'r ydym yn awr?

Mae llygredd a llifogydd yn cael effeithiau eang ar Gymru, yn ogystal â digwyddiadau tywydd eithafol. Er enghraifft: -

- Mae digwyddiadau llygredd amaethyddol yn parhau i fod yn broblem, gan effeithio'n sylweddol ar gyrsiau dŵr. Mae llygredd dŵr a achosir gan fwyngloddiau metel segur yn cael effaith sylweddol hefyd. Mewn ardaloedd trefol, yn arbennig, mae wynebau anhdraidd a datblygiadau ar orlifdiroedd yn dwysáu llifogydd lleol.
- Mae'n debygol y bydd newid yn yr hinsawdd yn arwain at fwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol, a bydd y bobl a'r eiddo hynny sydd wedi'u lleoli ar orlifdiroedd neu'n agos i arfordiroedd yn wynebu risg gynyddol. Mae sychder hefyd yn broblem ac mae'n debygol y bydd llai o ddŵr ar gael mewn rhai ardaloedd. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru yn awgrymu y bydd cynnydd hefyd yn nifer y bobl sy'n agored i niwed y bydd arnynt angen help pe bai digwyddiad.

Mae angen i bawb yng Nghymru barhau i gydweithio i leihau'r risgiau o gael digwyddiadau ac i ymateb yn y ffordd fwyaf priodol ac effeithiol pe bai un yn digwydd.

Ein blaenoriaethau yn ystod 2018/19 a'n gwaith gyda phartneriaid

Er mwyn **amddiffyn pobl a chymunedau rhag llifogydd**, byddwn yn cynnal ein hasedau llifogydd mewn ardaloedd risg uchel ac yn sicrhau eu bod ar y cyflwr targed, yn ogystal â chyflawni gwaith cyfalafol sylweddol a fydd yn lleihau'r perygl o lifogydd i gymunedau.

Byddwn yn:

- Cynnal y rhaglen waith flynyddol y cytunir arni er mwyn sicrhau bod 99% o asedau rheoli perygl llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru mewn lleoliadau sydd â risg uchel yn cael eu cynnal a'u cadw ar y cyflwr gweithredu targedol
- Lleihau'r perygl o lifogydd ar gyfer o leiaf 500 eiddo yn 2018/19, gan gynnwys gwneud cynnydd sylweddol o ran Cynllun Lliniaru Llifogydd y Rhath a Chynllun Lliniaru Llifogydd Crindai
- Cyflawni asesiad perygl llifogydd cenedlaethol newydd a diweddaedig ar gyfer Cymru, a fydd yn helpu i flaenoriaethu ymhellach yr holl fuddsoddiad (gennym ni, ac awdurdodau rheoli risg eraill) yn y lleoliadau sydd â'r risg uchaf
- Parhau i weithio gydag awdurdodau lleol ac awdurdodau rheoli risg eraill ar gronfa ddata genedlaethol ar gyfer asedau perygl llifogydd arwyddocaol
- Parhau i ddatblygu a mynd ar drywydd datrysiadau sy'n seiliedig ar ddalgylch a gwaith i reoli llifogydd mewn modd naturiol lle bo hynny'n briodol

- Cynnal adolygiad o'n gwasanaethau rhybuddio rhag llifogydd, i sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r budd uchaf posibl ar gyfer y buddsoddiad yn y maes hwn

Ymateb mewn modd effeithiol i ddigwyddiadau, a defnyddio tystiolaeth i ysgogi lleihad yn nhebygolrwydd a difrifoldeb digwyddiadau yn y dyfodol drwy weithio gyda phartneriaid, cymunedau, a'r sectorau amaethyddiaeth/diwydiannol. Adolygu blaenoriaethau rheoli digwyddiadau, defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a darparu ymateb effeithiol a chydlynol:

- Gweithredu system brysbennu ar gyfer galwadau sy'n ymwneud â digwyddiadau er mwyn blaenoriaethu adnoddau a darparu ymateb effeithiol a chydlynol
- Adolygu a rhesymoli ein rotâu ymateb i ddigwyddiadau
- Defnyddio'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau yn dilyn digwyddiadau er mwyn nodi dulliau effeithiol a mesurau lliniaru posibl
- Canolbwyntio ar gamau gweithredu a dargedwyd er mwyn lleihau tebygolrwydd a difrifoldeb digwyddiadau
- Parhau i adrodd ynghylch digwyddiadau sy'n codi ac ymateb i bartneriaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, cwmnïau dŵr, ac ymddiriedolaethau afonydd

Amddiffyn pobl, busnesau a'r amgylchedd drwy **leihau troseddau amgylcheddol a mynd i'r afael â safleoedd nad ydynt yn perfformio'n dda:**

- Gweithio at sefydlu'r Cynllun Tarfu, Atal, Canfod ar gyfer troseddwr a'u troseddau erbyn diwedd 2018/19
- Lleihau nifer ac effeithiau'r safleoedd gwastraff a diwydiannol sydd â'r perfformiad gwaethaf drwy weithio i sicrhau bod nifer net y safleoedd gwastraff a diwydiannol sydd â pherfformiad gwael yn sefydlog neu'n cael ei leihau yn 2018/19 o'i gymharu â 2017/18
- Sicrhau bod cynllun gwella penodol ar waith gan yr holl safleoedd sy'n perfformio'n wael a bod hwn yn cael ei weithredu yn unol ag amserlen y cytunir arni
- Bod cynlluniau atal a lliniaru tân ar waith ar gyfer yr holl safleoedd sydd â risg uchel o dân
- Cynnal yr arolwg gwastraff masnachol a diwydiannol, er mwyn cynnig darlun diweddaredig mewn perthynas â gwastraff masnachol a diwydiannol yng Nghymru a sut mae'n cael ei reoli, o'i gymharu ag arolygon blaenorol a gynhaliwyd yn 1998/99, 2002/03 a 2006/07

Amcan Llesiant 5: Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus

Ble'r ydym yn awr?

Mae llawer o bobl eisoes yn defnyddio manau awyr agored. Fodd bynnag, mae problemau iechyd sylweddol yng Nghymru lle rydym yn credu y gallai mynediad at yr amgylchedd naturiol a'r defnydd ohono helpu i gefnogi ffordd o fyw iach. Er enghraifft:

- Ystyrir bod 59% o bobl Cymru 16 oed neu'n hŷn dros bwysau neu'n ordew, ac mae'r niferoedd yn cynyddu.¹

- Mae'n debygol y bydd 25% o bobl yn dioddef o broblemau iechyd meddwl ar ryw adeg o'u bywydau.¹²
- Mae 50% o'r holl blant a phobl ifanc a 29% o oedolion yn gwneud ymarfer corff tair gwaith yr wythnos, ac mae'r niferoedd sy'n cymryd rhan yn gostwng yn sylweddol gydag oedran.¹
- Mae 81% o oedolion Cymru wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd hamdden awyr agored o leiaf unwaith y flwyddyn. Er hynny, dim ond 26% o bobl oedd gwneud hyn yn 'rheolaidd'.⁴ Mae menywod yn debygol o fod yn llai gweithgar na dynion.¹

Rydym yn wynebu sawl her, yn enwedig mewn perthynas â newid ymddygiad a chyfathrebu arbenigol, er mwyn ailgysylltu pobl â'r amgylchedd naturiol, ac annog y defnydd o fannau awyr agored fel rhan o ffordd o fyw iach. Er enghraifft: -

- Mae pobl yn defnyddio mannau awyr agored ond mae angen annog rhagor o bobl i ymweld yn fwy aml ac yn fwy rheolaidd er mwyn cyflawni'r buddion mwyaf, ac mae angen targedu grwpiau neu gymunedau penodol.
- Gall rhagor o wirfoddolwyr yn yr awyr agored ddarparu rhagor o fuddion i bobl a'r amgylchedd naturiol.
- Mae angen mynd i'r afael â phroblemau lleol o ran ansawdd aer/tir/dŵr er mwyn sicrhau bod yr holl ardaloedd yn lleoedd diogel a deniadol i fyw a gweithio ynddynt.

Ein blaenoriaethau yn ystod 2018/19 a'n gwaith gyda phartneriaid

Cefnogi gwelliant i **iechyd a lles** ym mhob cyfnod bywyd pobl, gan annog a hwyluso mynediad at yr awyr agored a chyfleoedd hamdden drwy wneud y canlynol:

- Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru i ddatblygu amcanion ar y cyd a mesurau ar gyfer cynyddu lefelau ymarfer corff yng Nghymru
- Mewn cydweithrediad gyda'n partneriaid, parhau i integreiddio ein dull o reoli a hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys lansio gwefan Llwybr Arfordir Cymru newydd fel rhan o Flwyddyn y Môr
- Hyrwyddo ymweliadau â safleoedd, cynhyrchu ein taflen 'Deg Lle Arbennig Ar Lân y Môr', cefnogi ymgyrch Blwyddyn y Môr Croeso Cymru, a chwblhau ein set o lyfrynau safle rhanbarthol drwy ryddhau llyfryn hyrwyddo 'safleoedd de Cymru'

Amcan Llesiant 6: Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi

Ble'r ydym yn awr?

Mae dros 90% o'r tir rydym yn ei reoli yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth.⁵ Hefyd, mae gennym bysgodfeydd dŵr croyw a morol sylweddol lle mae sicrhau bod stociau pysgod yn gynaliadwy yn fater o bwys: er enghraifft, mae nifer yr eogiaid sy'n byw yn ein hafonydd wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.¹ Mae cyfraddau ailgylchu awdurdodau lleol wedi cynyddu o 52% yn 2013/14 i 60% yn 2015/16, sy'n gosod Cymru ar flaen y gad o ran ailgylchu yn y DU, yn ail yn Ewrop, ac yn drydydd yn y byd.¹ Mae ffigyrau Llywodraeth Cymru yn dangos bod 43% o'r ynni a ddefnyddiwyd yng Nghymru yn 2016 wedi dod o ynni adnewyddadwy, sef cynnydd o 32% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae heriau'r dyfodol yn cynnwys:

- Hwyluso gallu busnesau i wneud y 'peth iawn', gweithio gyda busnesau i edrych ar ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur, a meddwl ar raddfa briodol
- Cynyddu'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchir ac effeithlonrwydd adnoddau
- Dylanwadu ar bolisiâu a chynllunio er mwyn sicrhau bod datblygu yn digwydd yn y lle iawn – er enghraifft, osgoi datblygu ar orlifdir a lleoli technolegau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn modd tringar
- Datblygu arloesedd a thechnolegau newydd

Ein blaenoriaethau yn ystod 2018/19 a'n gwaith gyda phartneriaid

Cefnogi **busnes a thwf cynaliadwy** gyda phenderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y farchnad ac sy'n cynyddu'r cyfraniad ariannol gan gyfleoedd masnachol a'r gwaith o gyflawni ein Cynllun Menter:

- Cynyddu'r incwm gan weithgareddau masnachol sy'n cefnogi cyflawni rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Sefydlu cynlluniau busnes manwl ar gyfer pedwar o'r portffolios o fewn y Cynllun Menter: Cynhyrchu Pren, Datblygu Ynni, Hamdden a Thwristiaeth, a'r Gwasanaethau Dadansoddi
- Ymgysylltu â chwsmeriaid o ran datblygu ein rhaglenni, gan amrywio o gyfarfodydd cysylltu blynyddol gyda chwsmeriaid pren a datblygwyr ynni hyd at ymchwil i'r farchnad mewn meysydd datblygu newydd, e.e. gwasanaethau dadansoddi
- Datblygu twristiaeth yn seiliedig ar hamdden, gan gynnwys cwblhau'r gwaith o ddatblygu cabanau ar safle Forest Holidays ym Meddgelert a'r adeiladu sy'n mynd rhagddo yng Ngarwnant. Gweithio gyda phartneriaid yng Nghoedwig Cwm-carn i ddatblygu model gweithredu'r dyfodol ar gyfer darparu hamdden a thwristiaeth yn y gyrchfan ymwelwyr proffil uchel hon
- Sefydlu'r broses ar gyfer gwerthuso syniadau masnachol newydd

Brwydro **newid yn yr hinsawdd** drwy gefnogi cynhyrchu ynni gwyrdd gyda phartneriaid:

- Cyflawni ein rhaglen ynni adnewyddadwy, gan gynnwys gweithio gyda datblygwyr i symud ymlaen â phrosiectau ynni gwynt, ac archwilio potensial y farchnad ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy eraill ar y tir a reolir gennym
- Symud drwy gam adeiladu dau brosiect ynni gwynt mawr yng Nghoedwig Brechfa a Choedwig Clocaenog, gan fesur cynnydd drwy'r capasiti/tyrbinau a osodwyd
- Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i nodi dulliau o gynnwys y gymuned a chreu perchnogaeth mewn prosiectau ynni adnewyddadwy ar yr ystâd a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- Pennu potensial masnachol parciau ynni wedi'u hintegreiddio gyda datblygiadau ffermydd gwynt drwy fwrw ymlaen â rhaglen ynni dŵr, storio mewn batris, solar, biomas a thechnolegau ynni eraill
- Darparu cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cefnogi fframwaith polisi strategol Llywodraeth Cymru i gyflawni datgarboneiddio

Cefnogi **datblygu cynaliadwy** drwy ddarparu cyngor ar gynllunio:

- Ymateb i ymgynghoriadau cynllunio o fewn terfynau amser statudol neu derfynau amser eraill y cytunir arnynt

- Darparu cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi adolygiad Llywodraeth Cymru o Bolisi Cynllunio Cymru a'i gwaith paratoi ar gyfer Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
- Cynnal arolygon cwsmeriaid i asesu effeithiolrwydd ein cyngor cynllunio
- Adolygu ein rhaglen waith ym maes cynllunio a'n canllawiau er mwyn adlewyrchu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Gwella ac ehangu gwasanaeth cyngori ar gynllunio datblygu dewisol Cyfoeth Naturiol Cymru (y codir ffi amdano), a bodloni'r targed incwm ariannol

Amcan Llesiant 7: Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

Ble'r ydym yn awr?

- Rydym wedi treulio amser yn sefydlu ein gallu annibynnol
- Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni'r manteision achos busnes ar gyfer ein sefydliad
- Rydym wedi ymdopi â'r cyfyngiadau ariannol a osodwyd arnom hyd yn hyn

Bydd ein heriau yn y dyfodol yn cynnwys:

- Parhau i drawsnewid ein sefydliad – gweithredu ein prosiect Cynllun y Sefydliad dros y ddwy i dair blynedd nesaf
- Mae'n debygol y bydd pwysau ariannol parhaus y mae'n rhaid i ni gynllunio amdanynt
- Symud at fod yn sefydliad sy'n galluogi mwy – gan weithio'n effeithiol gyda phobl eraill ym mhob maes ein gwaith
- Gwella bodlonrwydd cwsmeriaid
- Gwneud ein sefydliad yn lle gwych i weithio a gwella bodlonrwydd staff

Ein blaenoriaethau yn ystod 2018/19 a'n gwaith gyda phartneriaid

Cefnogi gweithio effeithiol a galluogi ffyrdd newydd o weithio drwy gwblhau'r gwaith o weithredu ein **Cynllun y Sefydliad** newydd:

- Gweithredu ar draws y sefydliad mewn cydweithrediad ag undebau llafur a'r staff, gan ddefnyddio ein polisi ac egwyddorion Rheoli Newid Sefydliadol
- Alinio ein system cymorth TG mewnol, MyNRW, i'r strwythur newydd
- Gweithredu dull newydd i reoli rhaglenni gan ddefnyddio'r arweinwyr sefydliadol newydd, y "Penaethiaid Busnes, Gwasanaeth a Lleoedd", er mwyn alinio darpariaeth a pholisi sy'n seiliedig ar leoedd yn well
- Darparu drwy dimau a leolir yn fwy lleol, gan ddefnyddio dull Cymru gyfan dim ond lle mae'n gwneud mwy o synnwyr i wneud hynny
- Sicrhau bod rheoli risg wedi'i ymgorffori ar bob lefel

Er mwyn gwella bodlonrwydd yr holl gwsmeriaid gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a darparu **gwasanaeth cwsmeriaid** rhagorol drwy ein Rhaglen Ffocws ar Gwsmeriaid, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cynnal arolygon o gwsmeriaid mewnol ac allanol
- Sefydlu gwaelodlin er mwyn mesur profiad ein cwsmeriaid
- Defnyddio data arolwg er mwyn pennu prosiectau ar gyfer cam nesaf y rhaglen

- Comisiynu ymchwil i'n helpu i adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth sydd gennym o ran yr hyn sydd ei angen ar gwsmeriaid gan wasanaethau digidol
- Rhoi cynllun gwella cynnwys digidol ar waith i sicrhau bod yr holl gynnwys ar-lein yn 'canolbwyntio ar dasgau' er mwyn cefnogi'r gwaith o symud gwasanaethau ar-lein, gan fesur hyn gyda sgôr hygyrchedd, safleoedd Google, a dadansoddiadau ar dudalen
- Defnyddio'r data arolwg o gwsmeriaid allanol i ddatblygu dull a arweinir gan y sector ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid

Er mwyn cefnogi'r blaenoriaethau a amlinellir yn ein Cynllun Corfforaethol, byddwn yn datblygu ein **strategaeth gyfathrebu** nesaf. Byddwn yn cydweithio ac yn cynnwys cydweithwyr â hyn, gyda'r nod o gyflawni'r gymeradwyaeth derfynol yn ystod ail chwarter 2018/19. Bydd y strategaeth yn amlinellu ein gweledigaeth o ran cyfathrebu, blaenoriaethau ac amcanion allweddol hyd at 2022.

Mae ein dyheadau digidol hirdymor wedi'u hamlinellu yn ein **strategaeth ddigidol**, ynghyd â'n gweledigaeth ddigidol ac amcanion hyd at 2020. Yn 2018/19, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Terfynu a blaenoriaethu'r cynllun gweithredu a rhoi llywodraethu ac adnoddau allweddol ar waith er mwyn caniatáu i'r sefydliad gyflawni ei uchelgais
- Blaenoriaethu meithrin ymwybyddiaeth ddigidol a gwybodaeth yn y busnes gyda rhanddeiliaid/partneriaid allweddol ac uwch-arweinwyr. Byddwn yn gwneud hyn drwy hyfforddiant, cyfathrebu ac ymgysylltu er mwyn adeiladu dealltwriaeth o'n strategaeth

Cynnal a gwella **iechyd, diogelwch a llesiant** y staff, drwy ein strategaeth llesiant, iechyd a diogelwch, drwy sicrhau'r canlynol:

- Rydym yn anelu at osgoi'r holl ddamweiniau sy'n gysylltiedig â'r gwaith – ond dysgu o'r digwyddiadau sydd yn digwydd
- Rydym yn cwblhau adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol ar gyfer pob digwyddiad o'r fath, ar sail amserol, ac yn cymhwyso'r hyn a ddysgwyd ohonynt
- Gweithredu rhaglen i wella llesiant yn y gweithle

Gwella sefyllfa ein sefydliad fel **man diogel ac iach i weithio** drwy:

- Hysbysu'r staff ynghylch allbynnau ein hail arolwg hinsawdd a datblygu camau gweithredu
- Gweddnewid ein Strategaeth Llesiant, Iechyd a Diogelwch er mwyn cyflawni a chanolbwyntio ar y camau gweithredu sy'n deillio o'r ail arolwg hinsawdd staff
- Darparu'r cymorth ac arweiniad gofynnol i'r staff er mwyn sicrhau eu llesiant wrth gyflwyno prosiectau trawsnewid pobl, cynllun ein sefydliad a'n rhaglenni newid

Gan ein bod wedi ymrwymo i **gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** ar gyfer ein staff a'r bobl rydym yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer, byddwn yn:

- Cyflawni camau gweithredu ein [Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2018/19](#)
- Cynnal asesiad cydraddoldeb ar ein cynlluniau, polisiau a phrosiectau lle y gallant gael effaith ar bobl a, lle bo'n bosibl, byddwn wedi lleihau'r effeithiau negyddol ac archwilio'r canlyniadau cadarnhaol
- Ymgysylltu â'n sefydliadau partner a grwpiau cymunedol a rhannu arfer gorau'n weithredol. Bydd gwneud hyn yn ein helpu i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf i bawb

- Cefnogi gwerth ein holl staff ni waeth beth fo'u cefndir a chreu amgylchedd gwaith lle gall pobl fynegi eu hunain a chyflawni hyd eithaf eu gallu

Datblygu ein **diwylliant** a gwella ein sefydliad fel lle i weithio:

- Hysbysu'r staff ynghylch canlyniadau ein trydydd Arolwg Pobl a datblygu a chyflawni camau gweithredu priodol
- Adnewyddu ein gwerthoedd a, thrwy gysylltu â'r Cynllun Gweithlu Strategol, cefnogi ein rheolwyr a'n timau i uchafu gwerth y broses newid sefydliadol
- Datblygu ein Cynllun Gweithlu Strategol er mwyn sicrhau ein bod yn hyfforddi ein gweithlu'n briodol ac yn ymateb i newidiadau strategol mewnol ac allanol
- Datblygu arweinyddiaeth sefydliadol drwy barhau â'n rhaglen Arweinydd Angerddol
- Rheoli newid sefydliadol yn effeithiol drwy ddatblygu a chyflawni amrywiaeth o opsiynau i gefnogi staff
- Datblygu gallu rheolwyr drwy barhau i greu a chyflawni amrediad o gyfleoedd datblygu rheolwyr ar eu cyfer

Cefnogi cyflawniad sefydliadol gyda **Rhaglen Datblygu Arloesedd** drwy adnewyddu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a gwneud y canlynol:

- Parhau i ddadgomisiynu seilwaith TGCh etifeddol drwy wella TGCh newydd er mwyn rheoli trwyddedu morol, trwyddedu rhywogaethau a chydysyniadau
- Gweithredu'r gwaith o ddiwygio'r system TGCh ar gyfer tynnu dŵr a chreu cofrestr gyhoeddus unigol
- Creu porth cwsmeriaid sengl a gwelliannau eraill i'n gwefan
- Gwella ein dulliau rheoli, prosesu ac adrodd data – gan ei gwneud yn haws i staff a chwsmeriaid ganfod y data y maent am ei gael a'i ddadansoddi'n briodol
- Cyflwyno Windows 10 drwyddi draw'r sefydliad
- Gwella'r cynhyrchion TGCh a gafodd eu cyflwyno'n gyflym mewn ymateb i amserlenni cyrff allanol ond a allent gefnogi ein prosesau yn fwy effeithiol
- Gwella systemau TGCh ar gyfer rheoli perygl llifogydd, gan gynnwys uwchraddio ein meddalwedd rhybuddio am lifogydd, ein meddalwedd cynnal asedau, a'n system asesu perygl llifogydd

Cynnal ein busnes, a rheoli ein harian, yn effeithiol:

- Adeiladu prosesau rheoli gwybodaeth a diogelwch effeithiol a gwydn, gan sicrhau bod cwsmeriaid yn hyderus o ran ein gallu i ymdrin â data personol. Datblygu a gweithredu camau o gynllun gwaith yr Uwch-swyddog Risg Gwybodaeth a thrwy gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data erbyn mis Mai 2018
- Cynnal perfformiad o ran taliadau a dyddiadau dyledwyr
- Cofnodi a mynd i'r afael â salwch staff
- Sicrhau bod ein cyllideb a'n hincwm yn cael eu rheoli er mwyn cynllunio a dilyn ein strwythur newydd
- Cynnal prawf o ran sut y gallwn helpu i gyflawni ein Hamcanion Llesiant drwy gaffael

Ein pobl, adnoddau, ac agenda newid

Er mwyn cyflwyno'r Cynllun Busnes hwn, mae arnom angen i'n gweithlu barhau i fod yn angerddol am ei waith ac am yr amgylchedd naturiol yng Nghymru, yn ogystal â bod yn barod i'r her yr ydym yn ei hwynebu.

Er ein bod eisoes wedi profi maint sylweddol o newid, mae dal rhagor i'w wneud yn 2018/19 er mwyn trawsnewid Cyfoeth Naturiol Cymru i'r sefydliad yr hoffwn iddo fod. Hyd yn oed wedyn, byddwn yn parhau i ddatblygu a newid y tu hwnt i'r Cynllun Busnes hwn wrth i alwadau, heriau ariannol a'r amgylchiadau o'n cwrpas newid.

Trwy ddyluniad sefydliadol, byddwn yn ailstrwythuro tuag at ddull integredig a leolir yn lleol ar gyfer y rhan fwyaf o'n gwaith, gan ddefnyddio dull cenedlaethol dim ond lle mae'n gwneud mwy o synnwyr i wneud hynny. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflawni ein diben newydd yn well, bod yn fwy hyblyg i wynebu heriau'r dyfodol, a bod yn fwy fforddiadwy'n ariannol. Bydd y newid hwn yn effeithio ar ein holl staff y flwyddyn nesaf a byddwn yn eu cefnogi drwy'r newidiadau gofynnol ac mewn partneriaeth â'n cydweithwyr o'r undebau llafur.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein harweinyddiaeth a sicrhau bod ein holl staff yn deall ein diben a sut mae eu rôl yn cyfrannu ato.

Mae ein Strategaeth Ariannol yn tynnu sylw at y cyfleoedd ariannol a'r heriau y byddwn yn eu hwynebu wrth gyflawni'r targedau yn y Cynllun Busnes hwn a thu hwnt i'n Cynllun Corfforaethol. Byddwn yn ceisio uchafu'r cyfleoedd incwm masnachol a amlinellir yn ein Cynllun Menter, yn arddangos ein bod yn rheoleiddio diwydiannau'n effeithlon yng Nghymru, ac yn optimeiddio'r defnydd o'r cymorth grant yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

Er mwyn cyflawni'r Cynllun Busnes hwn, mae gennym gyllideb gyffredinol o £184 miliwn, refeniw o £156 miliwn a chyfalaf o £28 miliwn. Bydd hyn yn cael ei ariannu gan gymorth grant (£99 miliwn), taliadau (£38 miliwn), incwm masnachol a chyllid allanol (£32 miliwn), ac incwm sy'n cael ei drosglwyddo o 2017/18 (£15 miliwn). Mae hyn yn dilyn y gostyngiad o £3 miliwn i'r grant cymorth a gadarnhawyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017.

Rydym yn rhagweld y byddwn yn wynebu heriau ariannol yn ystod 2018/19 a'r blynyddoedd i ddod. Er gwaethaf hyn, byddwn yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd gennym. Yn awr, yn fwy nag erioed, bydd cydweithio'n agos â sefydliadau eraill, yn enwedig wrth ddarparu cynlluniau llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a gyda'r byd academaidd a chyrrff proffesiynol i ddatblygu dulliau arloesol, yn hanfodol i'n llwyddiant.

Bydd blaenoriaethu'r defnydd o'n harian yn hanfodol o ran cyflawni ein saith Amcan Llesiant.

Adrodd ar ba mor dda rydym yn gwneud

Fel sefydliad sy'n cyflawni, mae angen i ni fod â'r gallu i arddangos pa mor dda rydym wedi perfformio. Bydd y canlyniadau a nodwyd yn erbyn pob un o'n Hamcanion Llesiant uchod yn caniatáu inni fonitro a dangos cynnydd; byddant yn ffurfio dangosfwrdd a ddefnyddir gan ein Bwrdd tair gwaith y flwyddyn er mwyn craffu ar y gwaith o ddarparu a dwyn ein Tîm Gweithredol i gyfrif. Byddwn yn cyhoeddi'r dangosfwrdd hwn, sy'n dangos pa mor dda rydym wedi gwneud, mewn adroddiad perfformiad bob amser mae ein Bwrdd yn craffu arno, yn ogystal ag o fewn ein Hadroddiad Blynyddol.

Hefyd, bydd gennym strwythur o gynlluniau a dangosfyrddau ar draws ein cyfarwyddiaethau, ein timau, a'n prosiectau er mwyn sicrhau bod y canlyniadau a nodir fan hyn a llawer o feysydd cyflawni eraill yn cael eu cwblhau. Mae gwaith craffu yn cael ei wneud yn rheolaidd ar ein perfformiad ar draws yr holl gynlluniau a dangosfyrddau hyn drwy strwythur rheoli'r sefydliad.

Bydd ein hadroddiad perfformiad yn ein symud tuag at y dull atebolrwydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a argymhellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y mesurau yn anelu at ddangos ein bod yn "gwneud gwahaniaeth".

Bydd ein mesurau tymor canolig yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Busnes 2018/19 hwn, i ddangos sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn perfformio dros hyd oes ein Cynllun Corfforaethol hyd at 2022.

Cyfeiriadau

¹ Ystadegau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru (2017), *Llesiant Cymru 2016–17*
<http://gov.wales/statistics-and-research/well-being-wales/?skip=1&lang=cy>

² Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru – Cyfoeth Naturiol Cymru: Ffeithiau Allweddol ar gyfer Polisi ac Arfer: Adroddiad Cryno (2016), ar gael drwy'r ddolen ganlynol:
<https://naturalresources.wales/media/681026/arolwg-hamdden-awyr-agored-cymru-ffeithiau-allweddol-ar-gyfer-polisi-ac-ymarfer-2016.pdf>

⁵ *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru* (2016), a gymerwyd o Lywodraeth Cymru, Busnes Cymru (2015), *Gwerth Bwyd a Diod Cymru*
<https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/value-welsh-food-and-drink>.

⁶ *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru* (2016), a gymerwyd o *Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru* (2015) Llywodraeth Cymru
<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/marine-planning/other-supporting-evidence/wales-marine-evidence-report/?skip=1&lang=cy>

⁷ *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru* (2016), a gymerwyd o bapur y Bwrdd Mynd i'r afael â'r effeithiau a achosir gan Fwyngloddiau Metel Segur
<https://naturalresources.wales/media/677992/07a-addressing-the-impacts-from-abandoned-metal-mines-nrw-b-3016-cym.pdf>

⁸ *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru* (2016), a gymerwyd o Hall J, Smith R. (2015), *Trends in critical load exceedances in the UK*. Canolfan Ecoleg a Hydroleg: Adroddiad ar gyfer Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Ar gael drwy'r ddolen ganlynol: http://www.cldm.ceh.ac.uk/sites/cldm.ceh.ac.uk/files/TrendsReport_June2015

¹⁰ Comisiwn Ewropeaidd (2015), Science for Environment Policy: *The Value of Natura 2000*. DOI 10.2779/162593. Hewins E, Toogood S, Alonso I, Glaves DJ, Cooke A ac Alexander R (2007), *The condition of lowland heathland: results from a sample survey of non-SSSI stands in England*. Adroddiad Ymchwil Natural England, NERR002.

¹² Gwefan Mind <https://www.mind.org.uk/information-support/types-of-mental-health-problems/statistics-and-facts-about-mental-health/how-common-are-mental-health-problems/#.Wgm1LY1LFZs>

Budget 2018-19

1) Budget by Directorate:

Directorates	Revenue (£m)	Capital (£m)	Total Budget (£m)
Chief Executive	0.3	0.0	0.3
Transformation Portfolio	2.0	0.0	2.0
OD & People Management	2.3	0.0	2.3
Finance & Corporate Services	33.9	4.7	38.6
Operations North & Mid Wales	47.4	19.2	66.6
Operations South	27.8	3.5	31.3
Evidence, Policy and Permitting	39.6	0.0	39.7
Chief Executive Office: Governance & Planning	0.9	0.0	0.9
Chief Executive Office: Customer Care, External Relations & Communications	2.2	0.0	2.2
Total Budget	156.4	27.5	183.9

Atodiad 2 Llythyr oddi wrth Diane McCrea at AS Lesley Griffiths, 12 Hydref 2017



Our Ref: CH17-025
Ty Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd / Cardiff
CF24 0TP / CF24 0TP
Eboed/Email:
Diane.McCrea@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Diane.McCrea@naturalresourceswales.gov.uk
Ffôn/Phone:
0300 065 4453

Ms Lesley Griffiths AM
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs
Welsh Government
Ty Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

12 October 2017

Dear Cabinet Secretary,

NRW DRAFT BUDGET FOR 2018-19 AND 2019-20

In his statement of 3rd October, the Cabinet Secretary for Finance and Local Government set out the outline draft budget for 2018-19 and 2019-20. The detailed draft budget will be published on October 24th.

We have been led to believe from Departmental officials that NRW can expect a cash reduction of 5% in 2018-19 and a further 5% in 2019-20 in its revenue Grant-in-Aid.


In an interview with the BBC this morning, Mike Hedges AM, in his capacity as Chair of the Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee quoted that the actual reduction in revenue funding for 2018-19 within Welsh Government's Environment and Rural Affairs Department was 1.5% after taking into consideration the transfer of budget to Local Authorities. We would like to understand why our expected reduction is significantly greater than the departmental reduction.

We have previously discussed NRW's challenging financial position, and we are extremely disappointed with these draft allocations which, if implemented, would severely threaten the services that we can offer and will inevitably lead to further significant reductions in NRW posts.

To put this into the wider financial context since we were created in April 2013 - By 2019-20 NRW's baseline Non-Flood Grant-in-Aid will have reduced by £14 million and 20% in cash terms, and by £25 million and 35% in 'real' terms.

Our baseline Flood Grant-in-Aid will have reduced by £1 million and 6% in cash terms, and by £4 million and 21% in 'real' terms over the same period.

The graph below shows what our baseline Grant-in-Aid would have been in 2019-20 if it had kept pace with inflation, compared with our actual allocations (all figures in £000s, excluding Invest to Save, 'one-off' funding and non-cash allocations).



The Business Case for the establishment of NRW set a cash releasing benefit target of £127 million over the first ten years. We are on track to deliver these benefits but we have also been required to fund the real term reductions in Grant-in-Aid, which has compromised the delivery of the aspirations laid out in the Business Case. Those real term reductions in Grant in Aid will have a cumulative impact of approximately £185m by the end of the business case period.

These further cuts would come at a time when the NRW Board is preparing its Corporate Plan for the next five years, during which time we are intending to fully implement the spirit and actions of the Well-being of Future Generations and Environment Acts. The Board's ambitions will be severely restricted if these reductions come into being. The Natural Resources Policy sets out the key risks, priorities and opportunities for the management of natural resources in Wales and how individual Welsh Government policies will contribute to sustainable management of natural resources. The risks, priorities and opportunities will shape our work on Area Statements. With these potential Grant-in-Aid reductions, we are of the opinion that our ability to contribute to the individual policy discussions will be limited (or curtailed), representing a significant risk to delivery of Ministers' ambition.

In terms of immediate effects, many of our key services are funded directly out of revenue Grant-in-Aid, including:

- Incident response;

Ty Cambria - 29 Heol Casnewydd - Caerdydd - CF24 0TP
Cambria House - 29 Newport Road - Cardiff - CF24 0TP
Croeso i'r gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

www.naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Page 2 of 4

- Supporting other public and third sector environmental initiatives (and playing our full part in the Public Service Boards (by collaborative working));
- Enforcement, including waste;
- Management of the Welsh Government Woodland Estate and National Nature Reserves;
- Environmental monitoring and scientific analysis;
- Biodiversity, conservation and promoting fisheries;
- Flood risk asset maintenance;
- Flood forecasting and awareness.

We would have no alternative but to cut back in these areas as other parts of our income are ring-fenced for particular services, such as permitting.

As approximately 60% of NRW's revenue costs are staff, we would need to reduce our staff structure by a further 165 posts, which includes 50 in the proposal to fund the Job Evaluation exercise. This would bring the total number of posts lost since NRW was established to 500, down from 2,100 to near 1,600 - a reduction of almost a quarter.

The recent NRW Benefits report which you have seen, and the WAO value-for-money report, have both demonstrated that we have managed the first five years well, but we will not be able to sustain our services at this level with the proposed level of Grant-in-Aid.

I would therefore as a matter of urgency, urge you and the Cabinet Secretary for Finance and Local Government to reinstate what we are led to believe are the likely proposed cuts to our budget.

There are other ways in which the Welsh Government can assist NRW:

- The receipts generated by wind farms and other renewable energy schemes on the land we manage are currently surrendered to Welsh Government. Retention of this income by NRW would amount to an additional £2 - £4 million a year, and would help to stabilise our Grant-in-Aid position.
- We have suggested several areas where NRW could raise charges - but Welsh Government lawyers have advised that this would not be in line with the original legislation, even though the charges are being raised in England. We would welcome a relaxation in the interpretation so that we could recoup the costs of providing those services.
- We have to deliver new legal duties and responsibilities, such as compliance with the Reservoirs Act, the Environment Act and the Well-being for Future Generations Act without having funding within our current baseline Grant-in-Aid allocation. Welsh Government have contributed to funding in the past by providing additional allocations.
- The current Job Evaluation proposal does not reflect the Board's preferred position and as you are aware will incur significant additional costs to deliver in line with your suggestion, and we would welcome Welsh Government assistance to meet the additional costs.

- Certainty of funding for dealing with the tree health disease in Wales, rather than annual allocations.

I am sure that you appreciate the severity of this situation and the impending impact on our aspiration and delivery for NRW. I would be grateful for an early meeting with you to discuss these issues. For your information, I am also sending a copy of this letter to Mark Drakeford AM.

Yours sincerely,

Diane McCrea MBE
Cadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru
Chair, Natural Resources Wales

Cc

Mark Drakeford
Andrew Slade

www.naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Page 3 of 4

www.naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Page 4 of 4